Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Ysgol Gynradd Penyrenglyn – Clwb Aml-sgiliau

Roedd Ysgol Gynradd Penyrenglyn eisiau ehangu diddordebau ei disgyblion mewn chwaraeon a'u hysgogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth fwy o chwaraeon, yn ogystal â'u hannog i fynychu clybiau chwaraeon ar ôl ysgol.

Cyflwynodd hi glwb chwaraeon ar ôl ysgol o'r enw Aml-sgiliau. Cafodd disgyblion gyfle i ddewis amrywiaeth o chwaraeon gwahanol a oedd yn eu galluogi i ddatblygu amrediad o sgiliau trosglwyddadwy. Defnyddiodd athrawon eu canlyniadau Arolwg ar Chwaraeon Ysgol i ddatblygu'r clwb gan eu bod yn awyddus i wrando ar leisiau eu disgyblion.

### Pam wnaeth hyn?

- Ysgogi plant i gymryd rhan mewn chwaraeon newydd
- Annog plant i fynd i glybiau ar ôl ysgol
- Datblygu eu sgiliau symud sylfaenol

### Beth mae'r ysgol wedi'i ddysgu o'r prosiect?

"Bellach, rydyn ni'n effro i'r effaith arwyddocaol a chadarnhaol mae chwaraeon yn ei chael ar les, hyder a hunan-barch ein disgyblion. Mae rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o chwaraeon wedi eu galluogi i ddatblygu a throsglwyddo eu sgiliau. Hefyd, mae wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau sylfaenol y disgyblion (rhedeg, neidio, dal ac yna blaen) fel eu bod yn barod i ddysgu sgiliau penodol sy'n ofynnol ar gyfer pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd ac ati."

> *"Rwy'n mwynhau mynd i Aml-sgiliau, gan fy mod yn dysgu sgiliau gwahanol ac rwy'n gwella mewn nifer o chwaraeon gwahanol. Rwy'n teimlo'n fwy heini ac yn iach ers imi ddechrau Aml-sgiliau."*

**32** Nifer y sesiynau:

Nifer y plant a gymerodd ran: **27**

Aeth **20** o blant i fwy na 60% o sesiynau

**15** Bachgen

**12** Merch

RHONDDA CYNON TAF